# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Tachwedd 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 - 13.45)

### 4.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Cyfarfod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 19 - Llythyr gan Weinidog yr Economi, 10 Tachwedd 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 - 13.50)

### 5.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(Tudalen 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 – Papur 20 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 9 Tachwedd 2023

**5.3 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 3 - 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 – Papur 21 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 10 Tachwedd 2023

## 9 Y Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad drafft

(14.15 - 15.00) (Tudalennau 5 - 78)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 – Papur 16 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

10 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, roeddwn am roi gwybod i chi fy mod wedi bod mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 11 Medi 2023.

Fe'i cynhaliwyd i baratoi ar gyfer yr ystod o gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE o fewn fframwaith y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a drefnwyd ar gyfer y misoedd sy'n weddill o 2023 a dechrau 2024.

Amlinellir crynodeb pellach o'r trafodaethau yn y Datganiad Ysgrifenedig atodedig, a ddosbarthwyd i'r Aelodau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.
Mick Antoniw, AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf - MA/LW/2867/23

Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN.

9 Tachwedd 2023

Annwyl Llyr,

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymais i ddarparu gwybodaeth am gymorth i breswylwyr ag offer nad ydynt yn cydymffurfio mewn ardaloedd rheoli mwg. Mae'r llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth hon.

Mewn ardaloedd rheoli mwg, nid oes gofyniad awtomatig ar aelwydydd i uwchraddio eu hoffer, felly bydd pobl yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth rheoli mwg heb fod angen uwchraddio drud. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ba fathau o danwydd solet y gallant eu defnyddio yn yr offer hŷn hyn. Mae opsiynau hefyd ar gael i awdurdodau lleol wrth greu a gorfodi ardal rheoli mwg. Gallant ddewis gwneud gwaharddiadau wrth greu gorchymyn rheoli mwg, fel math o le tân neu adeilad. Byddaf yn ei wneud yn glir mewn canllawiau, cyn rhoi unrhyw ddirwyon, fy mod yn disgwyl i awdurdodau lleol gynnig cyngor a chymorth i helpu aelwydydd i gydymffurfio â deddfwriaeth rheoli mwg.

Mae cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Nod Strategaeth Wres i Gymru | LLYW.CYMRU, sydd ar agor ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori, yw cefnogi perchnogion tai gyda chyngor a chefnogaeth ar gyfer pontio i wres carbon isel. Mae argraffiad newydd Rhaglen Cartrefi Cynnes yn parhau i ariannu mesurau i gefnogi aelwydydd cymwys. Mae cyllid arall ar gyfer y gost o ddisodli systemau gwresogi tanwydd ffosil ar gael i aelwydydd yng Nghymru a Lloegr drwy'r Cynllun Uwchraddio Boeleri.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ar 7 Tachwedd 2023, agorodd Ei Fawrhydi y Brenin sesiwn newydd Senedd y DU yn ffurfiol, gan roi braslun o ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn newydd.

Darparwyd rhagor o wybodaeth am gynnwys Araith y Brenin wedyn mewn dogfen a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Prif Weinidog. Cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar 8 Tachwedd yn nodi'r Biliau y bwriedir eu hymestyn a'u cymhwyso i Gymru.

Cyn Araith y Brenin, roedd Llywodraeth y DU wedi rhoi rhestr i Lywodraeth Cymru o bynciau dangosol y mae'n debygol y bydd yn deddfu arnynt yn ystod sesiwn newydd Senedd y DU, ac mae'r ddwy lywodraeth wedi bod yn trafod ar lefel swyddogion nifer o'r meysydd deddfu posibl.

Cafodd nifer o Ddeddfau gan Senedd y DU eu pasio ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Senedd yn ystod sesiwn ddiwethaf Senedd y DU, gan ddangos diffyg parch at ewyllys y Senedd a Chonfensiwn Sewel fel y mae'n ymddangos yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwyf wedi pwysleisio wrth Weinidogion Llywodraeth y DU na ellir parhau i weithio yn y ffordd hon, ac mae'r trafodaethau mwy ffrwythlon sydd wedi cael eu cynnal ar y rhaglen ddeddfwriaethol newydd hon hyd yma wedi codi fy nghalon rywfaint.

Ein safbwynt hanfodol o hyd yw y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dal i gredu y gall fod rhai amgylchiadau pan fydd yn gwneud synnwyr i ddarpariaethau, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu cynnwys mewn Biliau gan Senedd y DU, gyda chaniatâd penodol y Senedd. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ysgrifennu'n ddiweddar at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor

Llywodraeth Leol a Thai i drafod ein gwaith gyda Llywodraeth y DU i wahardd arferion “dim DSS” a “dim plant” mewn tai a fflatiau preswyl a osodir i'w rhentu yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cadarnhau yn y Cyfarfod Llawn ein gwaith ar y cyd â Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer diwygio lesddaliadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU pan fo hynny'n cyd-fynd â'n hegwyddorion.

Mae chwech o'r Biliau a grybwyllwyd yn Araith y Brenin a'r dogfennau ategol wedi eu trosglwyddo o'r sesiwn ddiwethaf. Rydym eisoes wedi gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â thri o'r rheini — y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) a'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion. Byddwn yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y buddiannau datganoledig ac unrhyw bryderon mewn perthynas â phob un o'r Biliau hynny'n cael sylw.

Edrychaf ymlaen at rannu rhagor o wybodaeth am Filiau perthnasol pan fydd modd gwneud hynny, ac at weithio gyda’r Senedd ar y broses cydsyniad deddfwriaethol drwy gydol sesiwn newydd Senedd y DU.

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon